

# Cronfa Cefnogi Gofalwyr – De Ddwyrain Cymru

## Nodiadau Arweiniol

Wedi i'r Gronfa Cefnogi Gofalwyr gael ei chyflwyno'n llwyddiannus gan Rwydwaith yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr a Chyngor Sir Mynwy rhwng Hydref 2020 a Mawrth 2022, mae'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr yn falch iawn o gynig cyfle i Awdurdodau Lleol eraill, mudiadau trydydd sector a chyrrff y GIG gymryd rhan mewn rhaglen newydd a gyflwynir yn ystod 2022/2023.

Mae'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr yn gwahodd mudiadau i gyflwyno cynigion ar sut i ddefnyddio Cronfa Cefnogi Gofalwyr Cymru i gefnogi gofalwyr di-dâl o bob oed ar draws De Ddwyrain Cymru. Dylai cynigion ganolbwyntio ar gefnogi gofalwyr sy'n profi caledi ariannol oherwydd yr argyfwng costau byw ac effaith barhaus y pandemig.

Rhestrir isod wybodaeth am Gronfa Cefnogi Gofalwyr Cymru a'r wybodaeth sydd ei hangen i wneud cais am arian.

### Gwybodaeth allweddol

Erbyn Mawrth 2025, bydd Cronfa Cefnogi Gofalwyr Cymru yn creu gwasanaethau parod a chynaliadwy o leihau effeithiau caledi ariannol ar gyfer 15,000 o ofalwyr di-dâl ar draws pob Ardal Awdurdod Lleol ledled Cymru. Gwneir hynny trwy ddarparu:

- Dyfarniadau grant uniongyrchol i brynu nwyddau hanfodol, fel bwyd, nwyddau cartref a nwyddau gwyn
- Gwasanaethau cefnogi fel budd-daliadau a chyngor ariannol, cefnogaeth a chyngor gan gymheiriaid
- Datblygu gwasanaethau tymor canol i dymor hir i gefnogi gwytnwch ariannol gofalwyr.

Trwy ddarpariaeth leol, bydd y Gronfa Cefnogi Gofalwyr yn cyflawni'r deilliannau canlynol ar gyfer gofalwyr di-dâl ledled Cymru:

- Lleihau caledi ariannol
- Gwellu ansawdd bywyd
- Gwellu llesiant meddyliol
- Gwellu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o ble i gael gafael ar gefnogaeth yn y dyfodol

- Gwella'r gefnogaeth i ofalwyr er mwyn iddynt allu parhau yn eu rôl ofalu.

Rhestrir yma uchafswm arian grant Cronfa Cefnogi Gofalwyr Cymru sydd ar gael ar gyfer cefnogi gofalwyr yn uniongyrchol rhwng 1 Tachwedd 2022 a 31 Hydref 2023 ym.

**Nodwch fod gwahanol ddyraniadau cyllid ac amserlenni cyflawni ar gyfer y ddwy flwyddyn ariannol:**

<b>Ardal Awdurdod Lleol</b>	<b>Cyllid ar gyfer 1 Tach 2022 tan 31 Mawrth 2023 (pum mis)</b>	<b>Cyllid ar gael 1 Ebrill 2023 tan 31 Hydref 2023 (siath mis)</b>	<b>Cyfanswm y cyllid</b>
Mlaenau Gwent	£22,000	£19,937	£41,937
Caerffili	£52,800	£47,850	£100,650
Caerdydd	£83,600	£75,762	£159,362
Sir Fynwy	£26,400	£23,925	£50,325
Casnewydd	£39,600	£35,887	£75,487
Torfaen	£27,280	£24,722	£52,002
Bro Morgannwg	£36,080	£32,697	£68,777
Rhondda Cynon Taf	£70,400	£63,800	£134,200
Merthyr Tudful	£17,600	£15,950	£33,550

Gwahoddir ceisiadau gan fudiad neu bartneriaeth o fudiadau gwahanol i ddarparu gwasanaethau/gweithgareddau a grantiau yn un neu nifer o'r ardaloedd Awdurdodau Lleol a restrir uchod.

**Sylwer:** rhaid dyrannu isafswm o 20% o'r dyfarniad cyfan ar gyfer grantiau uniongyrchol.

**Gwasanaethau Cefnogi Gofalwyr**

Gellir defnyddio grant Cronfa Cefnogi Gofalwyr i ariannu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion gofalwyr yn eich ardal leol. Gallai hyn gynnwys gwasanaeth newydd neu estyniad i wasanaeth sy'n bod yn barod. Mae enghreifftiau yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i:

- Datblygu grwpiau cefnogi cymheiriaid
- Swmp brynu a chyflenwi blychau bwyd neu lesiant i gefnogi gofalwyr mewn sefyllfaoedd o argyfwng
- Cyngor a chefnogaeth gyda budd-daliadau i ofalwyr sy'n byw gyda heriau ariannol

- Swmp brynu mynediad at gyrsiau iechyd a llesiant e.e., ioga, meddylgarwch, tai chi
- Sefydlu neu ehangu gwasanaethau cyfeillio. Gallai'r costau gynnwys costau hyfforddiant, costau ffôn/rhyngwyd, costau gwirfoddolwyr.

#### **Costau cyflawni** – Gall cyllidebau gynnwys:

- Costau uniongyrchol staff wrth gyflawni prosiectau
- Llogi lleoliadau, lluniaeth ysgafn a deunyddiau prosiect
- Prynu offer sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chyflawni'r prosiect
- Gorbenion ar uchafswm o 10% o'r swm y gofynnwyd amdano

#### **Dyfarniadau Grant Uniongyrchol i Ofalwyr**

Rhaid defnyddio isafswm o 20% o **gyfanswm** y gyllideb y gofynnwyd amdani (cyn ychwanegu gorbenion) i ddarparu grantiau/talebau uniongyrchol i ofalwyr sy'n profi heriau ariannol penodol. Ni ddylai dyfarniadau unigol fod yn fwy na £300.

Mae enghreifftiau o eitemau cymwys yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- Prynu nwyddau cartref (gan gynnwys ffyrnau/poptai, oergelloedd, gwelyau, peiriannau golchi ac ati) ac atgyweiriadau cartref, bwyd a dillad
- Prynu offer TG a ffonau symudol, meddalwedd a lwfansau data
- Costau trafnidiaeth (bws, trên, tacsis, costau tanwydd, gwersi a phroffion gyrru)
- Costau tiwtora i gefnogi gofalwyr sy'n ei chael yn anodd gydag addysg
- Offer yn gysylltiedig ag addysg neu gyflogaeth

Eitemau anghymwys:

- Oherwydd cyfyngiadau gan Lywodraeth Cymru, **ni ellir darparu dyfarniadau mewn arian neu ddulliau cyfwerth ag arian** megis cardiau credyd rhagdaledig
- Costau yn gysylltiedig ag ad-dalu dyledion
- Unrhyw gostau'n gysylltiedig â phrynu cerbydau modur
- Cynnal a chadw cerbydau modur gan ddarparwyr heb eu hardystio
- Unrhyw wariant a gynlluniwyd y tu allan i'r flwyddyn ariannol y cafodd ei ddyfarnu ar ei chyfer.

Gellir dosbarthu dyfarniadau grant mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys:

- Prynant uniongyrchol nwyddau gwyn/gweithgareddau gan eich mudiad oddi wrth fanwerthwr/cyflenwr

- Darparu taleb i'w gwario mewn siopau dethol ar gyfer prynu eitemau penodol e.e., bwyd, dillad, dillad gwely ac ati.

Gellir prynu talebau ymlaen llaw ar gyfer manwerthwyr/siopau unigol sy'n gysylltiedig ag anghenion penodol y gofalydd.

Pan ddarperir cyllid i gefnogi **gofalwyr ifanc 5-17 oed**, dylech ofalu fod cydsyniad rhiant/gwarcheidwad yn cael ei dderbyn a'i gofnodi. Rhaid i'r eitem/gweithgaredd anelu'n glir iawn at ddiwallu anghenion penodedig y gofalydd ifanc.

Rhaid i'r arian fod ar gael i ofalwyr ar draws ardal(oedd) yr Awdurdod(au) Lleol y cafodd ei ddyrannu ar eu cyfer a rhaid ei hyrwyddo trwy weithgarwch penodol a/neu waith partneriaeth gyda mudiadau sy'n gweithio gyda gofalwyr yn yr ardal.

### **Monitro disgwyliadau**

Bydd monitro a gwerthuso yn allweddol wrth gyflwyno'r gronfa hon er mwyn sicrhau y cyrhaeddiad a'r effaith mwyaf posib ar gyfer gofalwyr di-dâl ac er mwyn cynnig tystiolaeth ei bod yn cynnig gwerth am arian. Mae'n gyfle hefyd i gasglu data ynghylch amrywiaeth, hygyrchedd ac i gasglu barn uniongyrchol gofalwyr, gan amlygu effaith, angen ac, yn ei dro, y posibilrwydd o gyfrannu at lywio cyfeiriad strategol i'r dyfodol.

Bydd y disgwyliadau monitro a gwerthuso canlynol yn amod derbyn arian:

- Bydd mudiadau'n llunio adroddiadau cyrhaeddiad a gwariant chwarterol ar-lein trwy Survey Monkey. Bydd hyn yn cynnig cyfle i Bartneriaid Rhwydwaith adrodd ar nifer y gofalwyr sy'n derbyn gwasanaethau/grantiau a manylion gwariant. Hefyd, bydd angen i Bartneriaid Rhwydwaith lunio adroddiad naratif bob chwe mis ar gyfer cofnodi llwyddiannau, heriau, effaith, astudiaethau enghreifftiol, dyfyniadau a materion perthnasol eraill. Bydd templed ffurflenni monitro yn cael ei ddarparu gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr.

Bydd yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr yn gweithio gyda mudiadau wedi dyfarnu arian i sicrhau y defnyddir offerynnau priodol, e.e. danfon arolwg gwerthuso byr at y sawl sy'n cael arian o'r gronfa i fesur effaith.

Bydd cyfarfod rhaglen yn digwydd unwaith y dyfarnwyd arian i gadarnhau disgwyliadau monitro, taliadau ac i ymateb i unrhyw ymholiadau.

Cynhelir cyfarfod hefyd tua diwedd y cyfnod 12 mis i gasglu adborth, rhannu arfer da a dysgu. Byddai disgwyl i aelod priodol o bob mudiad fynychu'r cyfarfodydd hyn.

## Beth ddylech ei gynnwys wrth wneud eich cais

Cynlluniwyd y ffurflen gais er mwyn casglu'r holl wybodaeth sydd ei hangen i ddeall eich prosiect a gallu cynnal asesiad trylwyr o'ch cynnig. Dylech ofalu:

- Y darparwyd gwybodaeth gyswllt lawn
- Eich bod yn rhoi ymatebion clir i bob cwestiwn
- Eich bod wedi ystyried sut fydd pob gofalydd yn gallu derbyn cefnogaeth yn yr ardal y byddwch yn ei thargedu
- Y cafodd y datganiad ei e-lofnodi gan berson a chanddynt yr awdurdod angenrheidiol.

## Arweiniad ar beth i'w gynnwys mewn rhannau penodol o'r ffurflen gais

**Adran 1: Manylion cyswllt:** Rhowch fanylion cyswllt ar gyfer person a fu'n rhan o ddatblygu'r cais ac all ateb unrhyw ymholiadau ynghylch y cynnig.

Rhowch hefyd fanylion cyswllt aelod dynodedig priodol o staff yn eich adran Gyllid y gellir cysylltu â nhw i ddelio ag unrhyw ymholiadau ariannol.

**Adran 2: Mwy am eich mudiad:** Bydd ymarferiad diwydrwydd dyladwy yn cael ei gwblhau cyn cadarnhau unrhyw ddyfarniad grant. Mae'r rhan hon o'r cais yn gofyn am wybodaeth i gadarnhau strwythur, gweledigaeth, cenhadaeth, gwerthoedd, sefyllfa ariannol ac endid cyfreithiol eich mudiad. Hefyd, rhaid darparu copiâu/dolenni i bolisiau a gweithdrefnau allweddol wrth gyflwyno eich ffurflen gais. Bydd methu darparu'r dogfennau hyn yn golygu na chaiff eich cais ei ystyried.

**Adran 3: Meysydd cyllido:** Rhestrwch ardaloedd yr holl Awdurdodau Lleol y bydd cyllid o'ch cynnig yn eu targedu a lle y bydd gofalwyr yn elwa.

**Adran 4: Trosolwg o brofiad:** Rhowch grynodedb o'r gwaith a wnaethoch sy'n cefnogi gofalwyr di-dâl yng Nghymru, ac yn enwedig felly yn ardaloedd yr Awdurdodau Lleol y bwriadwch eu targedu fel y nodwyd yn y cais.

**Adran 5: Cynnig prosiect:** Rhowch grynodedb o'r hyn y bwriadwch ei gyflawni ar gyfer gofalwyr yn y cyfnod cyllido 12 mis (1 Tachwedd 2022 – 31 Hydref 2023). Dylai hyn gynnwys disgrifiad o'r prosiect arfaethedig, cymunedau penodol o ofalwyr i'w targedu, sut gafodd yr angen ei ddynodi, pa wasanaethau fydd gofalwyr yn eu derbyn/profi a sut fydd eich cynnig yn cyflawni deilliannau'r rhaglen.

## Adran 6: Gwasanaethau Cefnogi Gofalwyr

**Crynodeb o'r gwasanaethau i'w darparu:** Rhowch fanylion y gwasanaethau yr ydych yn bwriadu eu darparu yn ystod y 12 mis gan gynnwys nifer y sesiynau a gyflwynir ac unrhyw grwpiau/cymunedau penodol o ofalwyr fydd yn cael eu targedu a'r rhesymwaith dros hynny. E.e.

- darperir 50 sesiwn cefnogi 1:1 i gefnogi gofalwyr (byddant ar gael i bob

gofalydd)

- darperir 10 sesiwn cefnogi cymheiriaid ar gyfer gofalwyr o gymunedau lleiafrifoedd ethnig ac ati

**Hyrwyddo gwasanaethau:** Amlinellwch sut fyddwch yn gweithredu, gan gynnwys gwaith marchnata a phartneriaeth, i sicrhau bod gofalwyr ar draws ardaloedd yr Awdurdodau Lleol rydych yn eu targedu yn gwybod am y gwasanaethau/gweithgareddau sydd ar gael. Rydym yn arbennig o awyddus i wybod am y ffordd y bwriadwch fynd ati i sicrhau y gall gofalwyr o grwpiau/cymunedau tangynrychioledig fanteisio ar yr arian. Mae hyn yn cynnwys gofalwyr gwrywaidd, gofalwyr o gymunedau LGBTQ+ a lleiafrifoedd ethnig a gofalwyr nad ydynt yn derbyn eich gwasanaethau ar hyn o bryd. Esboniwch hefyd os gwelwch yn dda sut y byddwch yn rheoli disgwyliadau gofalwyr o ran darparu gwasanaethau.

**Cyrraedd gofalwyr:** Rhowch amcangyfrif o faint o ofalwyr fydd yn cael eu cefnogi trwy wasanaethau yn ystod y cyfnod 12 mis. Dylai hyn gynnwys targed ar gyfer cyrraedd gofalwyr nad oeddent yn hysbys i'ch mudiad.

**Atodiad Un: Amserlen gweithgarwch.** Rhowch fanylion yr amserlen ar gyfer cyflawni'r prosiect yn y tabl a ddarperir, gan gynnwys y gwariant misol disgwyliedig.

#### **Adran 7: Dyfarniadau Grant Uniongyrchol i Ofalwyr**

**Crynodeb o'r grantiau uniongyrchol i ofalwyr i'w cyflwyno:** Rhowch drosolwg o'r mathau o grantiau bychain rydych yn bwriadu eu darparu ac a ydych yn targedu unrhyw grwpiau penodol o ofalwyr. E.e.

- 50 grant ar gyfer bwyd (ar gael i bob gofalydd)
- 20 grant ar gyfer nwyddau gwyn
- 20 grant ar gyfer gofalwyr ifanc
- 70 grant agored a bennir yn ôl angen ac ati

**Ardaloedd Awdurdodau Lleol y byddwch yn darparu dyfarniadau grant uniongyrchol i ofalwyr ynddynt a'r trefniadau dosbarthu a fwriedir:** Nodwch yn ardaloedd pa Awdurdodau Lleol y mae eich mudiad yn bwriadu dosbarthu'r dyfarniadau grant a beth fydd canrannau'r grantiau a ddosberthir yn y gwahanol ardaloedd.

**Dyfarniadau Hygyrch Grant Uniongyrchol i Ofalwyr:** Amlinellwch sut fyddwch yn gweithredu, gan gynnwys gwaith marchnata a phartneriaeth, i sicrhau bod gofalwyr ar draws ardaloedd yr Awdurdodau Lleol yn gwybod am y grantiau sydd ar gael tra'n rheoli disgwyliadau ar yr un pryd. Rydym yn arbennig o awyddus i wybod am y ffordd y gall gofalwyr o grwpiau/cymunedau tangynrychioledig

fanteisio ar yr arian. Mae hyn yn cynnwys gofalwyr gwrywaidd, gofalwyr o gymunedau LGBTQ+ a lleiafrifoedd ethnig a gofalwyr nad ydynt wedi'u cofrestru gyda'ch gwasanaethau ar hyn o bryd.

**Cyrraedd gofalwyr:** Rhowch amcangyfrif o faint o ofalwyr fydd yn cael eu cefnogi trwy wasanaethau yn ystod y cyfnod 12 mis. Dylai hyn gynnwys targed ar gyfer cyrraedd gofalwyr nad ydynt wedi defnyddio eich gwasanaethau o'r blaen.

**Gwneud penderfyniadau ac awdurdodi:** Amlinellwch os gwelwch yn dda sut fydd eich mudiad yn blaenoriaethu pa ofalwyr fydd yn derbyn grantiau a beth fydd y broses awdurdodi a gwneud penderfyniadau y byddwch yn ei dilyn. E.e. Bydd panel grantiau yn cynnwys o leiaf dau aelod o staff yn cyfarfod yn wythnosol i fynd drwy'r holl geisiadau a gwneud argymhellion fydd yn cael eu cymeradwyo gan aelod awdurdodedig o staff neu bydd aelodau unigol o staff yn asesu ceisiadau fydd yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan reolydd.

**Dull dosbarthu dyfarniadau:** Amod caeth y mae cyllidwyr yn mynnu arno yw **na ellir** rhoi dyfarniadau mewn arian (neu'n gyfwerth). Gellir rhoi talebau iddynt, neu ddyraniadau o siopau penodol, eitemau/gweithgareddau a brynwyd yn uniongyrchol gan y mudiad neu drefn arall nad yw'n defnyddio arian. Amlinellwch os gwelwch yn dda sut mae eich mudiad yn bwriadu dosbarthu'r arian. Os yw'n fwriad defnyddio trefn wahanol ar gyfer gofalwyr 18+ oed a gofalwyr ifanc (5-17 oed) rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

**Atodiad Dau: Amserlen gweithgarwch.** Rhowch fanylion yr amserlen ar gyfer darparu grantiau uniongyrchol yn y tabl a ddarperir, gan gynnwys y gwariant misol disgwylidig.

### **Adran 8: Cyllideb**

**Cyllideb 2022/23:** Rhowch fanylion gwariant rhwng 1 Tachwedd 2022 a 31 Hydref 2023. Yr uchafswm a ganiateir ar gyfer gorbenion yw 10% o'r prosiect a ariennir e.e. gwasanaethau cefnogi gofalwyr £40,000, grantiau uniongyrchol £50,000 Cyfanswm £90,000. Hefyd, gorbenion ar 10% £9,000. Cyfanswm y cais £99,000.

**Nodwch** y gwahanol ddyraniadau cyllid a'r amserlenni ar gyfer cyflawni dros y ddwy flynedd ariannol fel y nodir yn y tabl yn yr adran 'Gwybodaeth Allweddol'. Sicrhewch fod y dadansoddiad hwn o wariant yn cael ei adlewyrchu'n gywir yn yr amserlenni gweithgaredd.

### **Camau Nesaf**

Dylech wneud ceisiadau a'u danfon trwy e-bost at: [wales@carers.org](mailto:wales@carers.org)  
[<mailto:wales@carers.org>](mailto:wales@carers.org) **erbyn 7 Medi 2022.**

Bydd cynrychiolwyr o'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr yn cysylltu â chi yn ystod yr wythnos yn cychwyn ar **3 Hydref 2022** i drafod unrhyw ymholiadau am eich cais a/neu i gadarnhau canlyniad eich cais.

Os yn llwyddiannus, ac wedi cael esboniad am unrhyw ymholiadau ac e-bost yn cadarnhau eich bod yn derbyn y dyfarniad, danfonir Cytundeb Grant. Wedi iddo gael ei lofnodi gan y person awdurdodedig a'i ddanfon yn ôl danfonir y rhandaliad cyntaf wedi derbyn anfoneb.

Gwneir taliadau grant chwarterol ar yr amod y derbynnir adroddiadau monitro cyrhaeddiad a gwariant ar-lein chwarterol, adroddiadau naratif chwe misol ac anfoneb chwarterol.

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch am y rhaglen hon, cysylltwch â **Liz Wallis** trwy e-bost: [wales@carers.org](mailto:wales@carers.org) <<mailto:wales@carers.org>> a bydd yn cysylltu'n ôl â chi o fewn dau ddiwrnod gwaith.

### **Amserlenni**

Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau – **Dydd Mercher 7 Medi 2022.**

Cyfarfod y panel asesu – **Wythnos yn cychwyn ar 26 Medi 2022** (gan ddibynnu ar faint o geisiadau a dderbynnir).

Egluro ymholiadau a rhoi gwybod i Bartneriaid Rhwydwaith beth yw'r penderfyniad – **Wythnos yn cychwyn ar 3 Hydref 2022.**